


# Archwilio eich swydd ddelfrydol

1 Dechreuwch y gweithgaredd hwn trwy chwarae'r **ffilm arwyr y tywydd**. Eglurwch eich bod yn mynd i gynnal gweithgaredd darllen a deall byr wedyn ac felly bydd angen i bawb wrando'n ofalus. Ar ôl iddynt wylio'r ffilm, gofynnwch iddynt guddio unrhyw nodiadau.

2 Gofynnwch y cwestiynau dilynol mewn fformat cwis dwylo i fyny:

- Pa swyddi a gafodd eu trafod yn y ffilm? E.e. cyflwynydd, arbenigwr cyfathrebu, archifydd, technolegydd.
- Beth sy'n rhan o bob rôl? (Gwnewch yn siŵr bod pobl ifanc yn deall beth mae pob rôl yn ei olygu).
- Pa sgiliau sydd eu hangen i wneud pob swydd? E.e. Gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg, mathemateg, gwyddorau cymdeithasol, y celfyddydau.

15 munud

Gwaith grŵp


## Awgrym

Os oes gennych amser ymlaen llaw, efallai yr hoffech hefyd greu cwis Kahoot gan ddefnyddio'r cwestiynau hyn, er mwyn ychwanegu mwy o hwyl a rhyngweithio i'r sesiwn. Cofnodwch yr atebion ar siart troi neu gofynnwch i'r grŵp greu map meddwl o'u hatebion i edrych arno'n ddiweddarach.

Esboniwch fod llawer o sgiliau sy'n helpu pobl i wneud swyddi ym meysydd sy'n cael eu dylanwadu gan y tywydd. Gorffennwch drwy esbonio y gall rhai sgiliau fod yn bwysicach nag eraill gan ddibynnu ar y rôl, ond y bydd yna achosion hefyd lle bydd angen rhai o'r un sgiliau i wneud gwahanol swyddi hefyd.

3 Rhannwch eich grŵp yn barau neu dimau o dri. Gofynnwch i bawb ddweud wrth ei gilydd beth yw eu swyddi delfrydol a pham: beth fyddent yn ei wneud? Ble fyddai'r swydd yn y byd? Pa sgiliau fyddai eu hangen arnynt? Beth fyddent yn ei wisgo? A fyddent yn gweithio dan do neu yn yr awyr agored?

4 Dewch â sylw yn ôl i'r blaen a gofynnwch am wirfoddolwyr i rannu eu swyddi delfrydol ac egluro pa sgiliau sydd ganddynt neu sydd eu hangen arnynt i'w gwneud yn dda. Cymharwch eu hatebion: a oedd gan unrhyw un rolau tebyg, neu rolau gwahanol a oedd angen sgiliau tebyg? Pam y gallai hyn fod? Llywiwch y drafodaeth i gasgliad bod cael y cymysgedd cywir o sgiliau yn hanfodol ar gyfer cyflawni eu nodau.





© Crown Copyright 2022, Met Office